

## **Atebion a roddwyd i Aelodau ar 7 Mai 2009**

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### **Cynnwys**

- 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
- 12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- 34 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
- 34 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 35 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
- 42 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## **Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o swyddi sydd wedi cael eu creu hyd yn hyn ers cyhoeddi'r Prosiect Twf Busnes gwerth £45m yn y drydedd uwchgyhadledd economaidd ym mis Rhagfyr 2008? (WAQ53961)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'r Prosiect Twf Busnes a gyhoeddwyd yn yr uwchgyhadledd economaidd ym mis Rhagfyr, fel rhan o becyn ehangach o gymorth sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, yn casglu allbynnau swyddi a grëwyd ar ôl cwblhau cymorth. Felly mae'n rhy gynnar yn y broses i gofnodi unrhyw swyddi a grëwyd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i sicrhau diogelwch ym Maes Awyr Llanbedr, Gwynedd, ers iddi fod yn berchen ar y safle? (WAQ53963)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiadau risg y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u gwneud yng nghyswllt risgiau diogelwch o ran yr adeiladau a'r tir yn yr ardal a elwir yn Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd ers iddi fod yn berchen ar y safle? (WAQ53964)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru erioed wedi ceisio cyngor (neu wedi cael cyngor) gan unrhyw sefydliadau Amddiffyn a Diogelwch Masnach a Buddsoddi y DU ynghylch diogelwch ym Maes Awyr segur Llanbedr yng Ngwynedd ers iddi fod yn berchen arno? (WAQ53965)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflogi unrhyw gwmni diogelwch i ymgymryd â diogelwch ym Maes Awyr segur Llanbedr yng Ngwynedd ac, os felly, pa ddyletswyddau y mae'r cwmni hwn yn eu cyflawni? (WAQ53966)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw trefniadau diogelwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer safle Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd yn unol â gofynion ei hyswiriwr ar gyfer y safle? (WAQ53967)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'r risg diogelwch a'r materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd yn safle Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd? (WAQ53970)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw Cofrestr Risgiau Diogelwch ar gyfer safle Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd? (WAQ53971)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drefniadau diogelwch sydd ar waith i rwystro ymwelwyr digroeso rhag dod i safle Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd? (WAQ53972)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal unrhyw asesiad risg terfysgwyr yng nghyswllt diogelwch safle Maes Awyr Llanbedr yng Ngwynedd ers iddi fod yn berchen arno? (WAQ53973)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae safle Maes Awyr Llanbedr yn wag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r holl adeiladau wedi'u diogelu a dim ond trwy gatiâu wedi'u cloi y gellir cael mynediad i'r safle. Mae ffens ddiogelwch dau fetr o uchder ar hyd y ffin/perimedwr sy'n cyd-ffinio'r briffordd a chynhelir archwiliadau safle rheolaidd er mwyn sicrhau na fu mynediad anghyfreithlon ac na thanseiliwyd diogelwch.

Cynhaliwyd asesiad risg trylwyr o'r safle ac nid ystyrir bod y safle'n risg diogelwch nac mewn perygl o derfysgaeth ddomestig a/neu ryngwladol. Fel y cyfryw, ni cheisiwyd unrhyw gyngor gan unrhyw sefydliad amddiffyn na diogelwch yn y DU.

Yn unol â sefydliadau eraill y llywodraeth, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yswirio eiddo gwag.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyswllt Llywodraeth Cynulliad Cymru â 'Business in Focus' er mwyn darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau ym Mhowys? (WAQ53975)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Llwyddodd Business in Focus i ennill contract i ddarparu'r Gwasanaeth Canolfan Ranbarthol Cymorth Hyblyg i Fusnes yng Nghanolbarth Cymru, sy'n cynnwys Powys.

Nododd y ddogfen dendro y gallai TUPE fod yn berthnasol i'r contract hwn; cyfrifoldeb y darpar contractwyr oedd pennu'r risg posibl. Bu Business in Focus mewn anghydfod ag un o'r contractwyr Llygad Busnes blaenorol mewn perthynas â'r mater hwn, a arweiniodd at dynnu yn ôl o'r cynnig contract cyn y dyddiad dechrau cyflwyno, sef 1af Ebrill.

Er mwyn sicrhau nad yw busnesau yng Nghanolbarth Cymru o dan anfantais, rydym wedi ymestyn y gwasanaeth cynghori Cymorth Cyffredinol i Fusnes er mwyn sicrhau bod busnesau yn y rhanbarth yn parhau i gael cyngor a chymorth busnes.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ53908, a wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o'r rheini a restrir oedd yn gerddwyr? (WAQ53976)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** O'r 15 o anafiadau y manylir arnynt yn yr ymateb i WAQ53908, nid oedd unrhyw gerddwyr.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ53897, a wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r pentrefi y cyfeirir atynt? (WAQ53981)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae dwy restr sy'n enwi'r holl bentrefi y cyfeirir atynt yn WAQ53897 yn atodedig.

Mae arolwg diweddar wedi nodi 112 o Bentrefi ar y rhwydwaith cefnffyrdd sydd â throedffordd ar un ochr:

Abergwilli  
Belan  
Beulah  
Blaenannerch  
Blaenplwyf  
Blaenporth  
Bow Street  
Brynhoffnant  
Builth Road  
Buttington (Cefn)  
Bwlch  
Carno  
Cemmaes Road  
Cilmeri

Crossgates  
Cwmdu  
Cynghordy  
Dinas Cross  
Dol-fach  
Erwood  
Felindre Farchog  
Ffos y Ffin  
Four Crosses  
Fron (ger Crossgates)  
Garth  
Llangrwyne  
Henfynyw  
Howey  
Libanus  
Llanbadarn Fynydd  
Llanbryn-mair  
Llandysilio  
Llanelwedd  
Llanerfyl  
Llangadfan  
Llangadog  
Llangurig  
Llansbyddid  
Llanwrda  
Llanwrthwl  
Llanwrtyd  
Llanymynech  
Llechryd  
Llyswen  
Llwyncelyn  
Treberfedd  
Trecelyn  
Penparc  
Penparcau  
Pont ar Gothi  
Pool Quay  
Refail  
Rhydyfelin  
Rhydypennau  
Sarnau  
Pont Senni  
Tal y Bont  
Talgarth (Brycheiniog)  
Tan y Groes  
Tre Taliesin  
Tre-wern  
Trecastell  
Tre-main  
Tretwr  
Foel  
A5 Capel Curig  
A5 Betws y Coed  
A5 Pentrefoelas  
A5 Cerrigydrudion

A5 Maerdy  
A5 Glyndyfrdwy  
A487 Treborth  
A487 Groesion  
A487 Pant Glas  
A487 Bryncir  
A487 Penmorfa  
A487 Glan y Morfa  
A487 Minffordd  
A487 Gellilydan  
A487 Corris Uchaf  
A487 Corris  
A487 Pantperthog  
A470 Dolwyddelan  
A470 Blaenau Ffestiniog  
A470 Llan Ffestiniog  
A470 Trawsfynydd  
A470 Bron Aber  
A470 Ganllwyd  
A470 Llanelltyd  
A470 Dolgellau  
A470 Dinas Mawddwy  
A494 Alltami  
A494 Cadol  
A494 Loggerheads  
A494 Llanbedr  
A494 Pwllglas  
A494 Gwyddelwern  
A494 Llanfor  
A494 Llanuwchllyn  
A494 Rhydymain  
A446 Bulwark  
A40 Gorllewin Sgledau  
A40 Gorllewin Treletert  
A40 Gorllewin Trefgarn  
A40 Gorllewin Prendergast  
A40 Gorllewin Hwlfordd  
A40 Gorllewiwn Robeston Wathen  
A40 Gorllewin Llanddewi Felffre  
A477 Llanteg  
A477 Milton  
A477 Kingswood  
A477 Doc Penfro

Mae arolwg diweddar wedi nodi 91 o bentrefi heb droedffordd neu droedffordd ysbeidiol:

Aberarth  
Aberbidno  
Abercrychan  
Abergwydol  
Aber-miwl  
Ardd-lin  
Derwen-fawr  
Caersws  
Cemmaes

Clatter  
Commins-coch  
Cwmbelan  
Cwmlinau  
Cyfronnydd  
Derwenlas  
Dinas Cross  
Dol y Maen  
Dol-wen  
Dolfor  
Eglwyswrw  
Felindre Farchog  
Felingerrig  
Fron (ger Garthmyl)  
Garthmyl  
Glandyfi  
Llanarth  
Llanbister  
Llandinam  
Llanegwad  
Llanfair Caereinion  
Llanhamlach  
Llanrhystud  
Llansantffraid  
Llantwyd  
Llywel  
Maerdy  
Maenordeilo  
Melin-y-ddol  
Nant y Dugoed  
Nant-ddu  
Nantgaredig  
Penegoes  
Pengenffordd  
Penystrywaid  
Pentre Gat  
Plwmp  
Waun-fach  
Pont-dolgoch  
Rhydgaled  
Sgethrog  
Post-mawr  
Talerddig  
Tre'r Ddol  
Wern (ger Ardd-Lin)  
Felin Wen  
A40 Gorllewin Tangiers  
A40 Gorllewin Llwyn Helyg  
A40 Gorllewin Hendy-gwyn  
A40 Gorllewin Pwll Trap  
A40 Gorllewin Sanclêr  
A40 Gorllewin Banc y Felin  
A40 Gorllewin Traveller's Rest  
A40 Gorllewin Johnstown  
A40 Gorllewin Caerfyrddin

A48 Gorllewin Llangynnwr  
A48 Gorllewin Nant-y-caws  
A48 Gorllewin Llanddarog  
A48 Gorllewin Cefneithin  
A48 Gorllewin Cross Hands  
A48 Gorllewin Cwmgwili  
A465 Cwmgwrach  
A465 Hirwaun  
A 40 Dwyrain Y Fenni  
A40 Dwyrain The Grange  
A40 Dwyrain Rhaglan  
A40 Dwyrain Llanfihangel Troddi  
A40 Dwyrain Penpergwm  
A40 Dwyrain Bryngwyn  
A40 Dwyrain Trefynwy  
A40 Dwyrain Llandidiwg  
A40 Dwyrain Ganarew  
A483 Derwydd  
A483 Tallard  
A483 Cyffordd Maerdy  
A483 Ffairfach  
A487 Glan Dwyfach  
A487 Dolbenmaen  
A494 Glan yr Afon  
A494 Bethel  
A494 Samau  
A494 Cefn-ddwysarn

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ53898, a wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ysgolion cynradd y cyfeirir atynt? (WAQ53982)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r rhestr atodedig yn nodi rhif y ffordd ac enw'r dref/cymuned sydd â'r ysgolion cynradd y cyfeirir atynt. Ni chedwir enwau'r union ysgolion fel data priffyrdd.

97 o ysgolion cynradd:

Bow Street  
Carno  
Cemmaes Road  
Crossgates  
Cwmdu  
Dolfor  
Eglwyswrw  
Four Crosses  
Garth  
Llanarth  
Llandinam  
Llantysilio  
Llanelwedd  
Llanfair Caereinion  
Llangadfan  
Llyswen  
Trecelyn  
Rhydypennau

Tal Y Bont  
Tre Taliesin  
Tre-wern  
Tre-main  
A466 Bulwark  
A40 Gorllewin Cas-blaidd  
A40 Gorllewin Prendergast  
A40 Gorllewin Hendy-gwyn  
A40 Gorllewin Sanclêr  
A40 Gorllewin Banc y Felin  
A40 Gorllewin Johnstown  
A40 Gorllewin Caerfyrddin  
A48 Gorllewin Llangynnwr  
A48 Gorllewin Llanddarog  
A48 Gorllewin Cefneithin  
A48 Gorllewin Cross Hands  
A48 Gorllewin Cwmgwili  
A465 Pandy  
A465 Cwmgwrach  
A465 Hirwaun  
A4060 Merthyr Tudful  
A4042 Llanofor  
A4042 Penperlleni  
A 40 Dwyrain Y Fenni  
A40 Dwyrain Rhaglan  
A40 Dwyrain Trefynwy  
A487 Abergwaun  
A4076 Johnston  
A483 Tycroes  
A483 Sgwâr Rhydaman  
A483 Llandybie  
A483 Ffairfach  
A483 Llandeilo  
A5 Bethesda  
A5 Pentre Du  
A5 Pentrefoelas  
A5 Cerrigydrudion  
A4 Maerdy  
A5 Corwen  
A5 Glyndyfrdwy  
A5 Llangollen  
A487 Treborth  
A487 Caernarfon  
A487 Bontnewydd  
A487 Dinas  
A487 Groeslon  
A487 Penygroes  
A487 Llanllyfni  
A487 Dolbenmaen  
A487 Penmorfa  
A487 Glan y Morfa  
A487 Tremadog  
A487 Porthmadog  
A487 Minffordd  
A487 Penrhyndeudraeth



A487 Gellilydan  
A487 Corris Uchaf  
A487 Corris  
A470 Glan-conwy  
A470 Llanrwst  
A470 Dolwyddelan  
A470 Blaenau Ffestiniog  
A470 Llan Ffestiniog  
A470 Trawsfynydd  
A470 Ganllwyd  
A470 Llanelltyd  
A470 Dolgellau  
A470 Dinas Mawddwy  
A494 Gwernymynydd  
A494 Llanferres  
A494 Llanbedr  
A494 Rhuthun  
A494 Gwyddelwern  
A494 Glan yr Afon  
A494 Cefn-ddwysarn  
A494 Llanfor  
A494 Y Bala  
A494 Llanuwchllyn  
A494 Rhydymain

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ53899, a wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ysgolion uwchradd y cyfeirir atynt? (WAQ53983)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r rhestr atodedig yn nodi rhif y ffordd ac enw'r dref/gymuned lle mae'r ysgolion uwchradd y cyfeirir atynt. Ni chedwir enwau'r union ysgolion fel data priffyrdd.

31 o ysgolion uwchradd:

A48 Dwyrain Cas-gwent x 2  
A40 Caerfyrddin x 3  
A470 Merthyr Tudful x 3  
A40 Dwyrain Y Fenni x 2  
A40 Dwyrain Trefynwy x 2  
A40 Dwyrain Llandidiwg  
A487 Abergwaun x 2  
A477 Doc Penfro  
A4076 Pont Fadlen/Hwlfordd  
A5 Bethesda  
A5 Llangollen  
A487 Caernarfon  
A487 Penygroes  
A487 Penmorfa  
A487 Glan y Morfa  
A487 Tremadog  
A487 Porthmadog  
A470 Llanrwst  
A470 Blaenau Ffestiniog  
A470 Dolgellau  
A494 Rhuthun

A494 Llanfor  
A494 Y Bala

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A fyddai'r Gweinidog (a) yn gwneud datganiad am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu TGCh yng Nghymru; (b) yn rhoi manylion pa sectorau TG sydd wedi cael eu blaenoriaethu a (c) yn gosod allan pa gyfranogiad a geisiwyd gan y sector preifat? (WAQ53989)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ym mis Ionawr 2009 cynullwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol i ystyried materion sy'n ymwneud â TGCh. Drwy drafodaeth, daeth y Gweinidogion i'r casgliad y byddai'n briodol ystyried datblygu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer Cymru. Mae'r camau nesaf yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Bydd Strategaeth TGCh Cymru yn debygol o gwmpasu TGCh yn ei hystyr ehangaf gan gynnwys cynnwys digidol, y defnydd o wybodaeth sector cyhoeddus a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy wneud defnydd gwell o TGCh, ei gwneud yn haws i ddinasyddion gael gafael ar adnoddau TGCh a'u defnyddio, a phob agwedd ar gynhwysiant digidol. Bydd hefyd yn cydnabod bod TGCh yn alluogydd, ac yn un o nifer sy'n cefnogi polisiau economaidd a chymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Bydd Strategaeth TGCh Cymru yn ategu strategaethau presennol y sector diwydiannol.

Mae gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth rôl allweddol yn y broses o ddatblygu Strategaeth TGCh ar gyfer Cymru, o ystyried ei chyfrifoldeb am seilwaith, datblygu'r sector TGCh, diwydiannau creadigol, mabwysiadu TGCh gan fusnesau, mewnfuddsoddi, cydberthnasau rhyngwladol, ymchwil a datblygiad ac arloesedd ac e-ddiogelwch.

Fodd bynnag, mae'r broses o ddatblygu Strategaeth TGCh ar gyfer Cymru ar gam cynnar ac nid oes dulliau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u sefydlu eto.

O safbwynt diwydiannol, mae tîm Strategaeth y Sector Diwydiannol wedi'i sefydlu a chydlynedd sector wedi'i benodi o AETH.

Wrth weithio'n agos gyda holl adrannau'r Cynulliad ynghyd â Fforymau a arweinir gan ddiwydiant (yn bennaf Fforwm Electroneg Cymru), bydd cylch gwaith y tîm yn cynnwys datblygu a darparu 'Map Llwybr' cynhwysfawr wedi'i ategu gan gynlluniau gweithredu manwl ar gyfer cefnogi'r sail diwydiant sydd yng Nghymru ar hyn o bryd mewn meysydd fel sgiliau, cyllid, seilwaith, technoleg, datblygiad y gadwyn gyflenwi ac ati.

Yn ogystal â hyn mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Busnes Rhyngwladol Cymru i nodi'r cyfleoedd ar gyfer ychwanegu at 'stoc' y cwmnïau TGCh drwy fewnfuddsoddiad gan amrywiaeth o sectorau sy'n ymwneud â TGCh yn fyd-eang, gan gynnwys Electroneg, Meddalwedd, Gwasanaethau Ariannol a Gwasanaethau Busnes.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ystyried ehangu'r hawl i ddefnyddio tocynnau teithio rhatach ar reilffordd Calon Cymru er mwyn caniatáu i'r rheini sydd â thocynnau ddefnyddio'r rheilffordd am ddim drwy gydol y flwyddyn? (WAQ54002)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae gwerthusiad llawn o ail flwyddyn y cynllun pilot tocynnau trên rhatach bron wedi ei gwblhau. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys ystyried Llinell Rheilffordd Calon Cymru. Rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiad yn y dyfodol agos am barhad y cynllun.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gynnig neu ei ddarparu ar gyfer ailddatblygu Aberystwyth, a pha gyfyngiadau sydd ar ddefnyddio arian o'r fath? (WAQ54007)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Mae arian ar gael i roi rhai o'r dyheadau a nodwyd yn Uwchgynllun Aberystwyth ar waith ac i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sylweddol yn y dref, fel yr estyniad £30.5 miliwn i Ysbyty Bronglais a'r broses o adeiladu'r Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig gwerth £55m.

Rydym wrthi'n ceisio sefydlu safle cyflogaeth strategol 35 erw ar gyfer gogledd Ceredigion. Mae Capel Bangor wedi'i nodi a cheisir caniatâd cynllunio ar hyn o bryd. Cyfanswm y gost hyd yma ar gyfer y prosiect cyfan yw tua £250,000.

Lansiwyd rhaglen Grant Gwella Tref y llynedd ac mae llawer o geisiadau wedi'u cyflwyno gan berchenogion eiddo yn y dref. Gwnaed arian ar gael ar gyfer cynlluniau amgylcheddol a chynlluniau cyhoeddus, ac o blith y rhain gwnaed gwelliannau i garejys yr harbwr y llynedd. Mae'r arian hwn ar gael ar gyfer busnesau neu berchenogion eiddo, ac mae trafodaethau â Chyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth yn mynd rhagddynt o ran datblygu cynlluniau priodol pellach. Bydd pob prosiect yn destun arfarniad prosiect llawn a diwydrwydd dyladwy ariannol.

Mae fy Swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd â datblygwyr safle Swyddfa'r Post yn Aberystwyth ac wedi nodi parodrwydd i gefnogi cynllun sy'n atgyfnerthu bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref. Ar hyn o bryd mae'r datblygwr yn edrych ar ei opsiynau ac yn paratoi cynnig sy'n rhoi ystyriaeth i safbwyntiau a dymuniadau'r trigolion lleol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pam nad yw polisi 20mya Llywodraeth Cynulliad Cymru ger ysgolion a llwybrau diogel i'r ysgol yn berthnasol i ysgolion annibynnol? (WAQ54011)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar derfynau cyflymder 20 milltir yr awr a phrosiectau llwybrau diogel yn berthnasol i ysgolion annibynnol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ger meysydd hamdden ac ardaloedd eraill sy'n boblogaidd ymysg pobl ifanc? (WAQ54012)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd lleol yw gosod terfynau cyflymder priodol, megis terfynau 20 milltir yr awr, gan ystyried cerddwyr, cyffyrdd, llif traffig a'r amgylchedd. Byddaf yn ystyried canllawiau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o ddewis terfyn cyflymder maes o law. Mae Grant Diogelwch ar y Ffyrdd o rhwng £7m a £8m yn cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd i awdurdodau lleol i annog y defnydd o barthau 20 milltir yr awr mewn ardaloedd addas, a allai gynnwys meysydd hamdden ac ysgolion.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am bosibilrwydd darparu gorsafoedd rheilffordd newydd yn Bow Street a Llandre? (WAQ54014)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw'r rhain yn rhan o'm Blaenraglen Rheilffyrdd. Felly, Trac fydd yn eu blaenoriaethu a'u cynnwys yn eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ailgor Gorsaf Carno? (WAQ54015)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw hwn yn rhan o'm Blaenrhaglen Rheilffyrdd. Felly, Trac fydd yn eu blaenoriaethu a'u cynnwys yn eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o brosiectau a gyllidir gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a beth yw'r rheini? (WAQ54033)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** O dan raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol 2007-2013 yng Nghymru, rydym wedi neilltuo £685 miliwn o arian Ewropeaidd (35% o gyfanswm grant yr UE) tuag at 87 o brosiectau, sy'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o dros £1.4 biliwn ar draws Cymru.

Cyhoeddir manylion prosiectau a gymeradwyir ar wefan WEFO: [www.wefo.wales.gov.uk](http://www.wefo.wales.gov.uk)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r cais TraCC i gefnogi gwaith paratoadol yn 2009/10, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr, a oedd yn cynnwys astudiaeth arfaethedig o Reilffordd y Cambrian a fyddai'n asesu'r opsiynau ar gyfer gorsafoedd newydd, megis Carno? (WAQ54047)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Hyd yma, nid wyf wedi cytuno ar yr arian cyfalaf ar gyfer gwaith paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC yn 2009/10. Rwy'n ystyried dyraniad terfynol y gronfa hon ar hyn o bryd.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r cyfnod a amcangyfrifir y bydd yn ei gymryd i recriwtio'r 30 o gynghorwyr gyrfaoedd ychwanegol fel y cyhoeddwyd yn yr hysbysiad yn dilyn y bumed uwchgynhadledd economaidd ar 7 Ebrill? (WAQ53953)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Bydd recriwtio staff yn dibynnu ar argaeledd ymgeiswyr addas yn lleol bob amser. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd pob un o gwmnïau Gyrfa Cymru yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r broses recriwtio.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o bobl a gyflogir gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru? (WAQ53993)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o ysgolion sydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf? (WAQ54000)

**Jane Hutt:** Ers 2002-03 hyd at 2008-09, bu dros 107 o brosiectau cyfalaf yn darparu ysgolion newydd, estyniadau sylweddol neu waith atgyweirio sylweddol.

Nid yw hyn yn cynnwys prosiectau a ariennir gan raglen gyfalaf yr awdurdod lleol ei hun, nac achosion lle y sefydlwyd ysgolion mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad, fesul ysgol, o'r nifer sy'n cymryd brechwast ysgol? (WAQ54009)

**Jane Hutt:** O fis Ionawr eleni, caiff data ar ysgolion a disgyblion sy'n cymryd rhan yn y fenter ei gasglu drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD); caiff y wybodaeth ei chyhoeddi yn ystod Haf 2009. Cyn hyn, casglwyd a chyflwynwyd data ar y niferoedd sy'n defnyddio'r cynllun gan awdurdodau lleol bob tymor. Cynhaliwyd yr ymarfer tymhorol terfynol ym mis Hydref 2008 ac mae crynodeb o nifer y disgyblion sy'n defnyddio'r cynllun ar lefel awdurdod lleol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae nifer y disgyblion sy'n defnyddio'r cynllun ar lefel ysgolion ar gyfer y cyfnod hwn yn y tabl atodedig.

**Nifer sy'n cael brechwast am ddim, wythnos yn dechrau 13 Hydref 2008**

Dim ond ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun brechwast am ddim a gynhwysir

<b>AAAL</b>	<b>Enw'r Ysgol</b>	<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr, wythnos yn dechrau 13 Hydref 2008</b>	<b>% y disgyblion a gafodd o leiaf un brechwast am ddim, wythnos yn dechrau 13 Hydref 2008</b>
Ynys Môn	Amlwch	46	96
Ynys Môn	Biwmares	100	18
Ynys Môn	Bodedern	84	55
Ynys Môn	Bodffordd	44	61
Ynys Môn	Bryngwran	34	59
Ynys Môn	Brynsiencyn	56	39
Ynys Môn	Carreglefn	24	88
Ynys Môn	Cemaes	74	23
Ynys Môn	Corn Hir	191	37
Ynys Môn	Cylch y Garn	38	29
Ynys Môn	Esceifiog	83	41
Ynys Môn	Ffrwd Win	47	19
Ynys Môn	Goronwy Owen	147	25
Ynys Môn	Henblas	26	85
Ynys Môn	Kingsland	138	25
Ynys Môn	Llaingoch	169	8
Ynys Môn	Llanbedrgoch	47	45
Ynys Môn	Llanddeusant	14	50
Ynys Môn	Llandegfan	141	33
Ynys Môn	Llandrygan	32	72
Ynys Môn	Llanfachraeth	21	86
Ynys Môn	Llanfairpwll	279	20
Ynys Môn	Llanfawr	149	39
Ynys Môn	Llanfechell	98	36
Ynys Môn	Llangaffo	41	54
Ynys Môn	Llangoed	84	20
Ynys Môn	Llannerchymedd	90	37
Ynys Môn	Moelfre	55	35
Ynys Môn	Morswyn	130	22

Ynys Môn	Parc	184	5
Ynys Môn	Parc y Bont	72	50
Ynys Môn	Parch Thomas Ellis	115	23
Ynys Môn	Pencarneisiog	63	52
Ynys Môn	Pentraeth	83	36
Ynys Môn	Penysarn	101	29
Ynys Môn	Rhoscolyn	108	19
Ynys Môn	Rhosneigr	62	26
Ynys Môn	Rhosybol	47	26
Ynys Môn	Santes Fair	175	17
Ynys Môn	Tŷ Mawr	24	50
Ynys Môn	Y Borth	195	22
Ynys Môn	Y Fali	107	26
Ynys Môn	Y Ffridd	66	55
Ynys Môn	Y Graig	318	18
Ynys Môn	Y Tywyn	100	31
Gwynedd	ABERCASEG	113	27
Gwynedd	BAB COEDMAWR	47	23
Gwynedd	BALADEULYN	27	96
Gwynedd	BODFEURIG	35	49
Gwynedd	BRO CYNFAL	60	38
Gwynedd	BRO LLEU	171	22
Gwynedd	BRONYFOEL	39	82
Gwynedd	CAE TOP	229	11
Gwynedd	CARMEL	51	33
Gwynedd	CEFN COCH	171	25
Gwynedd	CYMERAU	337	9
Gwynedd	EDMWND PRYS	44	68
Gwynedd	EIN HARGLWYDDES	109	23
Gwynedd	GLANADDA	54	48
Gwynedd	GLANCEGIN	191	32
Gwynedd	HIRAEI	196	14
Gwynedd	LLANBEDR	54	39
Gwynedd	LLANBEDROG	84	27
Gwynedd	LLANDYGAI	160	9
Gwynedd	LLANLLECHID	206	31
Gwynedd	LLANLLYFNI	75	19
Gwynedd	LLANRUG	250	32
Gwynedd	LLWYNGWRIL	32	28
Gwynedd	MAENOFFEREN	192	18
Gwynedd	MAESINCLA	268	27
Gwynedd	MANOD	82	30
Gwynedd	NEBO	30	43
Gwynedd	NEFYN	139	12
Gwynedd	PENDALAR	76	42
Gwynedd	PENISARWAEN	59	25

Gwynedd	RHIWLAS	44	45
Gwynedd	SANTES HELEN	79	18
Gwynedd	TALSARNAU	30	57
Gwynedd	TALYSARN	71	68
Gwynedd	TANYCASTELL	99	28
Gwynedd	TANYGRISIAU	71	45
Gwynedd	TREGARTH	131	24
Gwynedd	WAUNFAWR	134	28
Gwynedd	Y CLOGAU	37	78
Gwynedd	Y FRIOG	38	34
Gwynedd	Y TRAETH	196	20
Gwynedd	YR EIFL	38	29
Gwynedd	YR HENDRE	373	12
Conwy	BETWS Y COED	51	18
Conwy	Y BENDIGAID WILLIAM DAVIES	147	33
Conwy	BOD ALAW	280	33
Conwy	BRO ALED	68	37
Conwy	BRO CERNYW	77	53
Conwy	BRO GWYDIR	258	21
Conwy	CAPEL GARMON	25	88
Conwy	CAPELULO	99	26
Conwy	CERRIGYDRUDION	65	51
Conwy	CONWAY ROAD	45	33
Conwy	CRAIG Y DON	399	22
Conwy	CYNFRAN	155	20
Conwy	CYSTENNIN	70	34
Conwy	DOLGARROG	45	49
Conwy	DOLWYDDELAN	35	83
Conwy	FFORDD DYFFRYN	93	30
Conwy	GLAN CONWY	83	41
Conwy	GLAN GELE	312	21
Conwy	GLAN Y MÔR	108	36
Conwy	GLANWYDDEN	241	20
Conwy	GOGARTH	169	22
Conwy	GYFFIN	24	21
Conwy	LLANDDOGED	68	63
Conwy	LLANDDULAS	101	68
Conwy	YSGOL FABANOD		
Conwy	LLANFAIRFECHAN	62	27
Conwy	LLANFAIR TALHAIARN	39	44
Conwy	LLANGELYNNIN	76	34
Conwy	MAELGWN	203	23
Conwy	MORFA RHIANEDD	94	41
Conwy	PANT Y RHEDYN	131	11
Conwy	PEN Y BRYN	401	50
Conwy	PENCAE	163	23

Conwy	PENDORLAN	225	16
Conwy	PENMACHNO	24	46
Conwy	YSGOL FABANOD PENMAENRHOS	47	70
Conwy	RHYDGALED	25	40
Conwy	RO WEN	10	80
Conwy	SANT SIÔR	208	19
Conwy	TAL Y BONT	42	40
Conwy	TAN Y MARIAN	85	69
Conwy	TREFRIW	38	11
Conwy	TUDNO	178	32
Conwy	YSBYTY IFAN	22	95
Sir Ddinbych	Bodfari	25	60
Sir Ddinbych	Ysgol Fabanod Bodnant	300	11
Sir Ddinbych	Ysgol Iau Bodnant	355	14
Sir Ddinbych	Borthyn	112	11
Sir Ddinbych	Bryneglwys	12	67
Sir Ddinbych	Brynhedydd	457	6
Sir Ddinbych	Cefnmeiriadog	85	22
Sir Ddinbych	Christchurch	382	8
Sir Ddinbych	Clawdd Offa	130	16
Sir Ddinbych	Corwen	95	26
Sir Ddinbych	Emmanuel	473	19
Sir Ddinbych	Frongoch	232	6
Sir Ddinbych	Gellifor	87	33
Sir Ddinbych	Gwaenynog	99	52
Sir Ddinbych	Henllan	62	15
Sir Ddinbych	Hiraddug	221	12
Sir Ddinbych	Llandegla	48	38
Sir Ddinbych	Llandyrnog	25	60
Sir Ddinbych	Llanrhaedr	58	17
Sir Ddinbych	Llywelyn	593	15
Sir Ddinbych	Penbarras	248	14
Sir Ddinbych	Pentrecelyn	28	43
Sir Ddinbych	Prion	46	43
Sir Ddinbych	Rhewl	44	43
Sir Ddinbych	Stryd y Rhos	202	10
Sir Ddinbych	Ysgol Fabanod Llanelwy	115	23
Sir Ddinbych	Cam wrth Gam	20	35
Sir Ddinbych	Trefnant	57	18
Sir Ddinbych	Tremerchion	57	88
Sir Ddinbych	Twm o'r Nant	251	6
Sir Ddinbych	Ysgol Mair	364	4
Sir Ddinbych	Ysgol Melyd	164	88
Sir Ddinbych	Ysgol y Castell	213	8
Sir Ddinbych	Ysgol y Faenol	111	40
Sir Ddinbych	Ysgol y Parc	163	17



Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Acrefair	201	16
Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Alexandra	271	30
Wrecsam	Ysgol Fabanod Parc Borrás	226	49
Wrecsam	Ysgol Iau Parc Borrás	244	55
Wrecsam	Ysgol Bronington a Gynorthwyir	105	35
Wrecsam	Brynteg	160	13
Wrecsam	Cefn Mawr	229	12
Wrecsam	Ysgol Iau Ceiriog	145	47
Wrecsam	Ysgol Fabanod y Waun	142	17
Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Garth	72	57
Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Gwenfro	301	9
Wrecsam	Hafod y Wern	255	35
Wrecsam	Ysgol Hanmer a Gynorthwyir	77	26
Wrecsam	Ysgol Fabanod Johnstown	148	33
Wrecsam	Ysgol Iau Johnstown	174	28
Wrecsam	Maes y Mynydd	331.5	17
Wrecsam	Ysgol Minera a Gynorthwyir	95	31
Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre	105	70
Wrecsam	Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	155	21
Wrecsam	Sant Paul, Isycoed	46	26
Wrecsam	Tanyfron	110	25
Wrecsam	Ysgol Iau Victoria	226	19
Wrecsam	Ysgol Bryn Tabor	216	29
Wrecsam	Ysgol Cynddelw	95	29
Wrecsam	Ysgol Heulfan	221	68
Wrecsam	Ysgol Plas Coch	234	42
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Aber-craf	39	44
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Aberhafesp	56	39
Powys	Ysgol Feithrin a Babanod Ardwyn	65	40
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Bronllys	35	43
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Tal-y-bont/Trewern	176	16
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Carno	25	36
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Carreghofa	108	45
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Cefnlllys	267	14
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol yr Ystog	89	61
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Crucywel	249	26
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Crossgates	151	32
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Cwmdu	30	17
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Cwmtwrch	68	49
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Cynlais	199	20
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Ffynngynydd	27	70
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Clas-ar-Wy (a Gynorthwyir)	44	27
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Cegidfa	170	24

Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Gungrog	72	14
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol y Gurnos	52	33
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-lai	158	27
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Howey	24	67
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Trefyclo	224	11
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Tre'r Llai	101	18
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr	51	37
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Llandinam	53	23
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod Trefonnen	206	11
Powys	Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwedd	51	59
Powys	Llanfihangel	12	33
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangedwyn	43	47
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynidr	116	33
Powys	Llanrhaedr ym Mochnant	68	19
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Machynlleth	234	24
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Maesyrhandir	217	29
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trefaldwyn	90	20
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trecelyn	90	30
Powys	Ysgol Fabanod Oldford	72	26
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhos	125	34
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Penycae	52	77
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Llanandras	169	9
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy	116	33
Powys	Rhosgoch	34	94
Powys	Pontsenni	119	10
Powys	Santes Fair	86	33
Powys	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sant Mihangel	111	32
Powys	Hwytyrn	53	36
Powys	Ysgol Gynradd Gymunedol Ynyscedwyn	166	33
Powys	Ysgol Dolafon	79	30
Powys	Ysgol Maesydre	235	19
Powys	Ysgol Pennant	57	23
Powys	Ysgol y Bannau	157	45
Ceredigion	ABERAERON	50	32
Ceredigion	ABERBANC	25	40
Ceredigion	ABERPORTH	119	39
Ceredigion	ABERTEIFI IAU	320	10
Ceredigion	ABERTEIFI PLANT A FABANOD	320	6
Ceredigion	BEULAH	29	31
Ceredigion	BLAENPORTH	25	36
Ceredigion	BRONANT	20	85

Ceredigion	CAERWEDROS	16	38
Ceredigion	CAPEL CYNON	29	45
Ceredigion	CAPEL DEWI	20	60
Ceredigion	CEI NEWYDD	88	55
Ceredigion	CENARTH	56	34
Ceredigion	CILCENNIN	18	44
Ceredigion	COED-Y-BRYN	19	21
Ceredigion	COMINS COCH	153	35
Ceredigion	CRAIG-YR-WYLFA	63	35
Ceredigion	CWRTNEWYDD	34	41
Ceredigion	FFYNNONBEDR	339	30
Ceredigion	GLYNARTHEN	31	58
Ceredigion	LLANAFAN	42	74
Ceredigion	LLANARTH	80	70
Ceredigion	LLANDDEWI BREFI	26	42
Ceredigion	LLANDYSUL	174	32
Ceredigion	LLANFARIAN	38	39
Ceredigion	LLANLLWCHAEARN	34	24
Ceredigion	LLANNON	30	73
Ceredigion	LLANWENOG	39	26
Ceredigion	LLANWNNEN	26	81
Ceredigion	LLECHRYD	51	55
Ceredigion	LLEDROD	20	100
Ceredigion	LLWYN-YR-EOS (BABANOD)	195	8
Ceredigion	LLWYN-YR-EOS (IAU)	195	16
Ceredigion	MYFENYDD	59	32
Ceredigion	PENLLWYN	30	67
Ceredigion	PENLON	38	32
Ceredigion	PENMORFA	15	27
Ceredigion	PENNANT	27	56
Ceredigion	PENRHYNCOCH	63	62
Ceredigion	PENUWCH	48	38
Ceredigion	PLASCRUG	376	34
Ceredigion	PONTGARREG	46	33
Ceredigion	PONTRHYDFENDIGAID	56	50
Ceredigion	RHYDLEWIS	28	36
Ceredigion	RHYDYPENNAU	95	51
Ceredigion	TALGARREG	17	100
Ceredigion	TREGARON	39	62
Ceredigion	YSGOL-Y-DERI	127	20
Sir Benfro	Aber Llydan	122	25
Sir Benfro	Brynconin	83.5	28
Sir Benfro	Burton	36	39
Sir Benfro	Cilgerran	117	12
Sir Benfro	Eglwysrwrw	109	8
Sir Benfro	Fenton	175.5	74

Sir Benfro	Ger y Llan	119.5	35
Sir Benfro	Wdig	121.5	33
Sir Benfro	Ysgol Fabanod Hakin	126	19
Sir Benfro	Ysgol Iau Hakin	135	27
Sir Benfro	Hwlfordd	142	31
Sir Benfro	Cas-lai	34	53
Sir Benfro	Herbrandston	45	44
Sir Benfro	Hook	82.5	51
Sir Benfro	Hubberston	106	31
Sir Benfro	Llandyfái	180.5	35
Sir Benfro	Llangwm	131.5	43
Sir Benfro	Manorbier	84	67
Sir Benfro	Mary Immaculate	198.5	48
Sir Benfro	Meads	208	33
Sir Benfro	Ysgol Fabanod Cil-maen	108	13
Sir Benfro	Mount Airey	154.5	19
Sir Benfro	Arberth	294.5	19
Sir Benfro	Ysgol Fabanod Neyland	138	36
Sir Benfro	Ysgol Iau Neyland	166	43
Sir Benfro	Orielton	63	30
Sir Benfro	Doc Penfro	589	100
Sir Benfro	Ysgol Gynradd Gymunedol Pennar	254.5	21
Sir Benfro	Prendergast	364	27
Sir Benfro	Ysgol Iau y Priordy	105	31
Sir Benfro	Cas-mael	59	51
Sir Benfro	Y Garn	125	25
Sir Benfro	Sageston	80.5	29
Sir Benfro	Sant Aidan	130	22
Sir Benfro	Llandudoch	112.5	24
Sir Benfro	Santes Florence	75	24
Sir Benfro	Sant Ffransis	140	24
Sir Benfro	Sant Ishmael	38	45
Sir Benfro	Sant Marc	115.5	26
Sir Benfro	Y Santes Fair	113	45
Sir Benfro	Sant Oswald	111	15
Sir Benfro	Teilo Sant	102.5	37
Sir Benfro	Ystangbwl	72.5	47
Sir Benfro	Stepaside	168	14
Sir Benfro	Tafarnspite	188.5	35
Sir Benfro	Templeton	94	38
Sir Benfro	Ysgol Fabanod Dinbych-y-pysgod	189.5	28
Sir Benfro	Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod	222	27
Sir Benfro	Cas-blaidd	32	47
Sir Benfro	Y Frenni	163	15
Sir Benfro	Ysgol Bro Dewi	121.5	14
Sir Gaerfyrddin	Abergwili	51	57

Sir Gaerfyrddin	Ysgol Fabanod Rhydaman	154	34
Sir Gaerfyrddin	Ysgol Iau Rhydaman	241	43
Sir Gaerfyrddin	Ysgol Feithrin Rhydaman	78	33
Sir Gaerfyrddin	Ysgol Gymraeg Rhydaman	178	51
Sir Gaerfyrddin	Bancffosfelen	35	74
Sir Gaerfyrddin	Betws	77	35
Sir Gaerfyrddin	Bigyn	253	26
Sir Gaerfyrddin	Blaenau	87	63
Sir Gaerfyrddin	Brechfa	22	55
Sir Gaerfyrddin	Bryn	192	31
Sir Gaerfyrddin	Brynamman	235	46
Sir Gaerfyrddin	Brynsaron	108	20
Sir Gaerfyrddin	Ysgol Iau Porth Tywyn	148	51
Sir Gaerfyrddin	Bynea	107	32
Sir Gaerfyrddin	Caio	21	14
Sir Gaerfyrddin	Capel Cynfab	12	58
Sir Gaerfyrddin	Capel Iwan	30	23
Sir Gaerfyrddin	Carwe	63	54
Sir Gaerfyrddin	Cefnbrynbrain	18	61
Sir Gaerfyrddin	Cefneithin	67	40
Sir Gaerfyrddin	Cilycwm	30	77
Sir Gaerfyrddin	Coedmor	70	43
Sir Gaerfyrddin	Cross Hands	120	48
Sir Gaerfyrddin	Cwmifor	16	0
Sir Gaerfyrddin	Cynwyl Elfed	44	59
Sir Gaerfyrddin	Dafen	217	28
Sir Gaerfyrddin	Drefach	68	31
Sir Gaerfyrddin	Farmers	20	40
Sir Gaerfyrddin	Felinfoel	60	38
Sir Gaerfyrddin	Glan-yfferi	30	87
Sir Gaerfyrddin	Pum Heol	88	30
Sir Gaerfyrddin	Gorslas	100	58
Sir Gaerfyrddin	Gwynfryn	88	49
Sir Gaerfyrddin	Hafodwenog	45	56
Sir Gaerfyrddin	Halfway	208	32
Sir Gaerfyrddin	Hendy	146	41
Sir Gaerfyrddin	Idole	10	90
Sir Gaerfyrddin	Tre Ioan	346	40
Sir Gaerfyrddin	Lakefield	294	25
